**DEDDF PRIFFYRDD 1980**
**GORCHYMYN BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**
**(CAU MYNEDFA BREIFAT I SAFLE — A4119 COED-ELÁI) 2020**

Mae CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF (“y Cyngor”) trwy hyn yn rhoi hysbysiad ei fod wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 124 ac 129 o Ddeddf Priffyrdd 1980, wedi cadarnhau’r gorchymyn a enwir uchod, ac effaith hynny yw awdurdodi'r Cyngor i gau'r fynedfa breifat i eiddo, o'r rhan o'r A4119 Coed-elái sydd rhwng Cylchfan Coed-elái a Chylchfan Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac a nodir gan lythyr yn yr Atodlen i'r hysbysiad yma, ac a amlygir ar y cynllun gan linellau du trwchus, oherwydd ei fod o'r farn bod defnyddio'r fynedfa breifat yn debygol o achosi perygl i'r traffig ar y briffordd honno ac ymyrryd yn afresymol. Mae'r fynedfa newydd, sydd i'w darparu gan y Cyngor, wedi'i nodi ar y cynllun ym mhob lleoliad gyda phatrwm croeslin tenau, ac mae rhifau cyfatebol ar gyfer pob un yn yr Atodlen i'r hysbysiad yma.

Mae modd gweld COPÏAU o'r gorchymyn a gadarnhawyd ac o'r cynllun y cyfeirir ato ynddo yn rhad ac am ddim yn Llyfrgell Gymunedol Llantrisant, Canolfan Hamdden Llantrisant, Parc Porth y De, Llantrisant CF72 8DJ ar bob adeg resymol ac yn 9
www.rctcbc.gov.uk/DeuoliA4119

Mae modd i UNRHYW BERSON sy’n teimlo ei fod wedi cael cam gan y gorchymyn ac sy’n dymuno amau ei ddilysrwydd, neu unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir ynddo, ar y sail nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980 neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf honno neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf mewn perthynas â’r gorchymyn 11 Mai 2022 wneud cais i’r Uchel Lys o fewn 6 wythnos am atal neu ddileu’r gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir ynddo.

**ATODLEN**
**Lleoliad — Coed-elái/Ynysmaerdy**

| **Mynedfa Breifat i'w Chau** | | **Mynedfa Breifat Newydd** | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Cyf.** | **Disgrifiad** | **Disgrifiad** | **Cyf.** |
| | | | |
| a | Mynedfa breifat at dir caeëdig 2842 am bellter o 5 metr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o bwynt 162 metr i'r gogledd-orllewin o'r eiddo o'r enw Pantglas | Mynedfa breifat newydd yn arwain o'r A4119 wedi'i llydanu sydd 43 metr i'r dwyrain o'r fynedfa bresennol | 1 |
| b | Mynedfa breifat at dir caeëdig 3231 i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ar bwynt 123 metr i'r gogledd-orllewin o'r eiddo o'r enw Pantglas | Mynedfa breifat newydd yn arwain o'r A4119 wedi'i llydanu sydd 33 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r fynedfa bresennol | 2 |
| c | Mynedfa breifat at dir caeëdig 3231 am bellter o fetr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o bwynt 40 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r eiddo o'r enw Awelfryn | Mynedfa breifat newydd yn arwain o'r A4119 wedi'i llydanu sydd 182 metr i'r gogledd-orllewin o'r fynedfa bresennol | 2 |
| d | Mynedfa breifat at dir caeëdig 5027 am bellter o 3 metr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o bwynt 76 metr i'r dwyrain o'r eiddo o'r enw Awelfryn | Mynedfa breifat newydd yn arwain o'r A4119 wedi'i llydanu sydd 320 metr i'r de-ddwyrain o'r fynedfa bresennol | 3 |
| e | Mynedfa breifat at dir caeëdig 6900 i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ar bwynt 250 metr i'r gogledd-orllewin o'r fynedfa i Weithfeydd Trin Dŵr (Dŵr Cymru) | Mynedfa breifat newydd yn arwain o'r A4119 wedi'i llydanu sydd 150 metr i'r de-ddwyrain o'r fynedfa bresennol | 3 |
| f | Mynedfa breifat at dir caeëdig 6300 i gyfeiriad y de-orllewin ar bwynt 220 metr i'r gogledd-orllewin o'r fynedfa i Weithfeydd Trin Dŵr (Dŵr Cymru) | Mynedfa breifat newydd yn arwain o'r A4119 wedi'i llydanu sydd 89 metr i'r de-dwyrain o'r fynedfa bresennol | 4 |
| g | Mynedfa breifat at dir caeëdig 6795 i gyfeiriad y de-orllewin ar bwynt 88 metr i'r gogledd-orllewin o'r fynedfa i Weithfeydd Trin Dŵr (Dŵr Cymru) | Dd/B | |
| h | Mynedfa breifat at dir caeëdig 7500 i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ar bwynt 67 metr i'r gogledd-orllewin o'r fynedfa i Weithfeydd Trin Dŵr (Dŵr Cymru) | Mynedfa breifat newydd yn arwain o'r A4119 wedi'i llydanu sydd 63 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r fynedfa bresennol | 5 |
| i | Rhan o'r fynedfa ar gyfer cerbydau i Weithfeydd Trin Dŵr (Dŵr Cymru) (gogledd) am bellter o 4 metr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o bwynt 150 metr i'r gogledd-orllewin o'r fynedfa i'r eiddo o'r enw Dyffryn-uchaf Farm. | Mynedfa breifat newydd yn arwain o'r A4119 wedi'i llydanu am bellter o 10 metr sydd 15 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r fynedfa bresennol | 6 |
| j | Rhan o'r fynedfa ar gyfer cerbydau i Weithfeydd Trin Dŵr (Dŵr Cymru) (de) am bellter o 6 metr i gyfeiriad y de-orllewin o bwynt 150 metr i'r gogledd-orllewin o'r fynedfa i'r eiddo o'r enw Dyffryn-uchaf Farm. | Mynedfa breifat newydd yn arwain o'r A4119 wedi'i llydanu am bellter o 2 fetr sydd yn uniongyrchol i'r de-orllewin ac i'r de o'r fynedfa bresennol | 7 |
| k | Rhan o'r fynedfa i gerbydau i Dyffryn-uchaf Farm am bellter o 11 metr i gyfeiriad y gogledd o bwynt 150 metr i'r de-ddwyrain o'r fynedfa i'r eiddo o'r enw Gweithfeydd Trin Dŵr (Dŵr Cymru) | Mynedfa breifat newydd yn arwain o'r A4119 wedi'i llydanu am bellter o 20 metr sydd 15 metr i'r gogledd o'r fynedfa bresennol | 8 |
| k | Rhan o'r fynedfa i gerbydau i Dyffryn Farm Bungalow am bellter o 25 metr i gyfeiriad y dwyrain o bwynt 150 metr i'r de-ddwyrain o'r fynedfa i'r eiddo o'r enw Gweithfeydd Trin Dŵr (Dŵr Cymru) | Mynedfa breifat newydd yn arwain o'r A4119 wedi'i llydanu am bellter o 26 metr sydd 15 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r fynedfa bresennol | 9 |
| l | Rhan o'r fynedfa i gerbydau i AL Griffiths Salvage Agents am bellter o 16 metr i gyfeiriad y de-orllewin o bwynt 22 metr i'r de-orllewin o'r eiddo o'r enw Dyffryn Farm Bungalow | Mynedfa breifat newydd yn arwain o'r A4119 wedi'i llydanu am bellter o 6 metr sydd yn uniongyrchol i'r de-orllewin o'r fynedfa bresennol | 10 |
| m | Rhan o'r fynedfa i orsaf pwmpio dŵr y Bathdy Brenhinol am bellter o 3 metr i gyfeiriad y de-orllewin o bwynt 72 metr i'r de-orllewin o'r eiddo o'r enw Dyffryn Farm Bungalow | Mynedfa breifat newydd yn arwain o'r A4119 wedi'i llydanu am bellter o 6 metr sydd 3 metr i'r de-orllewin o'r fynedfa bresennol | 11 |
| n | Mynedfa breifat at dir caeëdig 466 am bellter o fetr i gyfeiriad y de o bwynt 77 metr i'r de-orllewin o'r eiddo o'r enw Dyffryn Farm Bungalow | Mynedfa breifat newydd yn arwain o'r A4119 wedi'i llydanu am bellter o fetr sydd yn uniongyrchol i'r de-orllewin o'r fynedfa bresennol | 12 |

**Dyddiad 11 Mai 2022**



**Andrew Wilkins**
**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol**
**Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa’r Cambrian, Cwm Clydach, CF40 2XX**